*Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN*

Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

# HYSBYSIAD STATUDOL

**CREU UN YSGOL GATHOLIG SENGL 3-16 YM MERTHYR TUDFUL DRWY:**

1. **GAU YSGOL GATHOLIG ST ALOYSIUS, FFEDERASIWN YSGOL GYNRADD ST ILLTYD, YSGOL GYNRADD SANTES FAIR AC YSGOL UWCHRADD GATHOLIG ESGOB HEDLEY**
2. **CREU UN YSGOL ADDYSG GATHOLIG BOB OED 3-16**

**Caiff yr hysbysiad ei gyflwyno'n** unol ag adran 43 Deddf Safonau a Threfniadau Ysgol (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion sef bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, ar ôl ymgynghori â'r cyfryw bersonau yn ôl y gofyn, yn cynnig cau'r ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir canlynol

- Ysgogol Gynradd Gatholig St Aloysius, Ffordd Cedrwydd, Ystâd Gurnos, Merthyr Tudful CF47 9PA
- Ysgol Gynradd Gatholig St Illtyd, Heol Greigiog, Dowlais, Merthyr Tudful CF48 3BT
- Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair, Caedraw Road, Merthyr Tudful CF47 8HA; ac
- Ysgol Uwchradd Esgob Hedley, Gwaunfarren Road, Penydarren, Merthyr Tudful CF47 9AN

**Caiff yr hysbysiad ei gyflwyno'n** unol ag adran 41 Deddf Safonau a Threfniadau Ysgol (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion sef bod Archesgobaeth Gatholig Caerdydd a Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, ar ôl ymgynghori â'r cyfryw bersonau yn ôl y gofyn, yn cynnig cau'r ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir canlynol sefydlu Ysgol Gatholig newydd i bobl ifanc rhwng 3 ac 16 oed a fyddai'n cael ei dosbarthu fel Cyfrwng Saesneg, Gwirfoddol a Gynorthwyir. Mae lleoliad yr ysgol newydd eto i'w gytuno. Mae ysgolion categori 'Gwirfoddol a Gynorthwyir' yn ysgolion eglwys ac mae'r Archesgobaeth yn cyfrannu at gostau adeiladu ac â dylanwad sylweddol ar gostau rhedeg yr ysgol. Mae'r Corff Llywodraethu'n cyflogi'r staff ac yn gosod meini prawf derbyn.

Os caiff y cynnig presennol ei gytuno a gweithredu, bydd yr ysgolion presennol yn cau ar 31 Awst 2022. Bydd strwythur llywodraethu'r ysgol newydd i gyd yn dechrau ar yr 1af o Fedi 2022. I bob effaith bydd yr ysgol 3-16 yn cael ei sefydlu yn yr ysgolion presennol a bydd yn cael ei throsglwyddo i'r adeilad newydd pan fydd yn barod.

Bydd lle yn adran gynradd yr ysgol ar gyfer 525 disgyblion, felly bydd mynediad i 2.5 dosbarth a rhif derbyn o 75 disgyblion. Bydd lle yn adran uwchradd yr ysgol i 600 disgyblion, felly bydd mynediad i 4 dosbarth a rhif derbyn o 120 disgyblion. Ar y dechrau, ni fydd unrhyw effaith ar deithiau disgyblion o ganlyniad i'r cynnig a bydd llwybrau cerdded sydd ar gael yn parhau'r un peth. Pan fydd safle yr adeilad newydd yn cael ei penderfynnu bydd y rhieni yn cael gwybod am y llwybrau cerdded.

Gwnaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful gynnal cyfnod ymgynghori cyn penderfynu ar y cynnig hwn. Mae Adroddiad Ymgynghori yn cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgynghorai, ymatebion y cynigiwr ac ymateb cyflawn Estyn ar gael i'w gweld ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn y cyfeiriad canlynol https://www.merthyr.gov.uk/council/have-your-say/3-16-report/?lang=en-GB&

Cynigir gweithredu'r cynnig ar 1 Medi 2022.

Oddi fewn i gyfnod o 28 diwrnod ar ôl y dyddiad y cafodd y cynnig ei gyhoeddi, sef erbyn 10 Tachwedd 2019, gall unrhyw berson wrthwynebu i'r cynigion. Dylid anfon gwrthwynebiadau i:- Prif Swyddog (Dysgu), Adran Ddysgu, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Uned 5 Pentrebach, Merthyr Tudful CF48 4TQ.

Arwyddwyd: SMWalker SUE WALKER, PRIF WEITHREDWR (DYSGU)

Ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.
Dyddiad: 14 Hydref 2019

**NODYN ESBONIADOL AM Y CYNIGION (nid yw'n rhan o'r Hysbysiad Statudol) -** Mae'r Cyngor yn cynnig cau Ysgolion Cynradd Catholig St Aloysius, Ffederasiwn Ysgolion Cynradd Catholig St Illtyd a'r Santes Fair ac Ysgol Uwchradd Gatholig Esgob Hedley a chreu ysgol 'bob oed' 3 i 16 wedi'i lleoli ar safleoedd presennol yr ysgolion. Os cytunir ar y cynnig cyfredol a'i weithredu byddai'r ysgolion cyfredol yn cau ar 31 Awst 2022. Byddai strwythur llywodraethu'r ysgol newydd bob oed yn dechrau ar 1 Medi 2022.
Yn dilyn ymgynghori â'r adrannau Peirianneg, Cynllunio, Priffyrdd a Diogelwch Ffyrdd, y ddau safle a fydd yn cael eu hystyried fydd adeilad newydd ar dir ar ochr orllewinol ffordd Galon Uchaf, i'r de o'r caeau chwarae neu ail-adeiladu ar un o safleoedd Ysgol Uwchradd Esgob Hedley. Caiff ei amcangyfrif y bydd yr adeilad newydd yn barod yn 2023/2024. Caniateir i Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful gyhoeddi cynigion i gau ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol sefydledig; fel y Llywodraethwyr hwythau. Yn hynny o beth gellir cyflawni'r cyhoeddiad ffurfiol am gau'r pedair ysgol bresennol gan y Cyngor yn dilyn gweithdrefn statudol gywir. Cafodd y cynnig i sefydlu ysgol wirfoddol a gynorthwyir ei gyhoeddi gan Archesgobaeth Gatholig Caerdydd mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.